

Adroddiad Blynyddol

Safonau'r Gymraeg

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

2020 – 2021

Paratowyd yn unol â gofynion



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Ebrill 2021

Cynnwys

1.0	Cyflwyniad	3
2.0	Cefndir yr Adroddiad	3
3.0	Crynodeb	4
3.1	Cynnydd / Datblygiadau yn ystod y flwyddyn	4
3.2	Edrych i'r Dyfodol	5
4.0	Gwybodaeth am y flwyddyn 2020-2021	6
4.1	Penodi Swyddog Hyrwyddo a Datblygu'r Gymraeg	6
4.2	Grŵp Llywio'r Gymraeg	6
4.3	Datblygu Cysylltiadau gydag Ysgolion Cynradd y Sir	6
4.4	Dathlu Dydd Miwsig Cymru 2021	6
4.5	Dathlu Diwrnod Shw Mae Su' Mae 2020	6
4.6	Dathlu Wythnos y Dysgwyr, Hydref 2020	7
4.7	Dathlu Dydd Gŵyl Dewi 2021	7
4.8	Teclyn Sgiliau Iaith a Negeseuon E-bost	7
4.9	Logo iaith Gwaith ar e-bost/brawddeg ar e-bost	8
4.10	Gwaith Cyfieithu'r Gwasanaeth Iaith Gymraeg a Chyfieithu	8
4.11	Cyfieithu ar y pryd	8
4.12	Fforwm Iaith / Is-bwyllgor Strategol	8
4.13	Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg	9
4.14	Gwersi Cymraeg	9
4.15	Gwobrau Cymraeg Gwaith	9
4.16	Cynllun Siarad yn y Gwaith	10
4.17	Gwasanaethau'r Cyngor	10
4.18	Sgiliau Iaith Gymraeg Staff y Cyngor	12
4.19	Recriwtio - Swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn	14
4.20	Hyfforddiant Cymraeg	15
5.0.	Cadw Cofnodion	17
5.1	Cwynion	17
6.0	Casgliad	19

1.0 Cyflwyniad

- 1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw dangos i ba raddau mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn ystod 2020-2021, a'r gwaith a wnaed i'w diwallu.
- 1.2 Er gwaethaf y ffaith ein bod yn gweithio o gartref am y flwyddyn ddiwethaf i gyd, rydym yn hynod falch o'r lluo o ddatblygiadau a llwyddiannau a gyflawnwyd - cyflwynir rhagor o wybodaeth amdanynt yng nghrombil y ddogfen hon.

2.0 Cefndir yr Adroddiad

- 2.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, na fydd yn trin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 2.2 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sefydlu fframwaith cyfreithiol i osod dyletswydd ar y Cyngor, ymhlith sefydliadau eraill, i gydymffurfio â Safonau yn ymwneud â'r iaith Gymraeg. Mae'r Cyngor wedi cael 167 o Safonau i gydymffurfio â nhw yn y meysydd a ganlyn – Cyflenwi Gwasanaethau, Gweithredu, Llunio Polisi, Hybu, Cadw Cofnodion. Mae'r Safonau i'w gweld [ar ein gwefan](#).
- 2.3 Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r Safonau yn golygu na ddylai'r Cyngor drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ynghyd â hybu a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg (gan ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg mewn bywyd bob dydd).
- 2.4 Pwrpas y Safonau yw:
- rhoi mwy o eglurder i sefydliadau ar eu dyletswyddau am yr iaith Gymraeg
 - rhoi mwy o eglurder i siaradwyr Cymraeg am y gwasanaethau y medrant ddisgwyl eu cael yn Gymraeg
 - sicrhau mwy o gysondeb o wasanaethau Cymraeg a gwella eu hansawdd.
- 2.5 Mae Safonau'r Gymraeg yn disodli Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor a gymeradwywyd gyntaf gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 23 Gorffennaf 1997, ac a ddiwygiwyd ar 14 Mai 2004 ac yna ar 23 Ebrill 2009.
- 2.6 Er bod y Cyngor eisoes yn cydymffurfio â mwyafrif o Safonau'r Gymraeg fel rhan o'u Cynllun Iaith Gymraeg cynt, mae'r Safonau wedi darparu cyfle i atgyfnerthu'r gofynion i sicrhau cydymffurfiaeth.
- 2.7 Mae'r adroddiad monitro hwn yn adlewyrchu'r cynnydd a wnaed yn erbyn camau gweithredu yn deillio o Safonau'r Gymraeg. Casglwyd y wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn yr adroddiad hwn o ganlyniad i'r monitro parhaus y mae'r Cyngor yn ei gynnal ar ei Wasanaethau.

2.8 Atebolrwydd

- 2.8.1 Rheolwr y Gwasanaeth Iaith Gymraeg a Chyfieithu a'r Swyddog Hyrwyddo a Datblygu'r Gymraeg sy'n gyfrifol am ysgrifennu'r ddogfen hon. Yna, mae hi'n cael ei chyflwyno i aelodau'r Pwyllgor Craffu a Throsolwg Cyllid ac Adnoddau i graffu arni. Yn eu tro, os ydynt yn fodlon â'r cynnwys, maen nhw'n ei chymeradwyo i'r Cabinet a fydd yn ei thrafod yn eu cyfarfod nesaf.

2.8.2 Ar ôl ei gymeradwyo, mae'r adroddiad hwn ar gael i'r cyhoedd yn swyddfeydd cyhoeddus y Cyngor (pan fyddant ar agor) ac ar ei wefan. Mae'r adroddiad hefyd yn cael ei gylchredeg i'r gwasanaethau unigol i gyd ac yn ogystal â hyn, cyhoeddir gwybodaeth am yr adroddiad monitro cyffredinol ynghyd â'r argymhellion ar y fewnrwyd a'i ddsbarthu drwy gyfrwng negeseuon ar y system negeseuon mewnol, yn y Briff Tîm ac yn y Newyddlen Staff. Bydd dolen gyswllt i'r ddogfen hon yn cael ei rhannu gyda staff derbynfeidd y Cyngor a byddwn yn rhoi gwybod wrth drigolion Conwy amdano.

3.0 Crynodeb

3.1 Cynnydd / Datblygiadau yn ystod y flwyddyn

3.1.1 Rydym yn falch o fedru adrodd ar nifer o ddatblygiadau yn ystod y flwyddyn. Mae sawl ymgyrch wedi golygu fod cynnydd yn nifer y cyfleoedd sydd ar gael i staff ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg a'i gwneud hi'n haws i bobl ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg mewn bywyd bob dydd. Dyma grynodeb ohonynt:

- a) **Penodi Swyddog Hyrwyddo a Datblygu'r Gymraeg** – Rydym yn hynod o falch o fedru nodi ein bod wedi penodi Swyddog Hyrwyddo a Datblygu'r Gymraeg i'r Cyngor, a ddechreuodd yn ei swydd ym mis Ionawr. Mae hon yn swydd newydd i'r Cyngor, ac yn un cyffrous iawn oherwydd nid yn unig y bydd yn gweithio'n fewnol gyda staff y Cyngor, bydd hefyd yn gweithio gydag ysgolion, y cyhoedd ac ati i hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg tu allan i'r Cyngor hefyd
- b) **Grŵp Llywio'r Gymraeg** – Yn ystod 2020, sefydlwyd grŵp newydd, Grŵp Llywio'r Gymraeg. Grŵp mewnol ydi'r grŵp, a'i fwriad penodol ydi ystyried a thrafod materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn y Cyngor, boed yn faterion o arferion da i'w dathlu a'u datblygu, neu unrhyw fater sy'n codi sy'n is na'r safon rydym ni'n anelu ati, yn faterion lle mae angen gwelliant gyda gwasanaeth penodol / agwedd benodol o'n gwaith ac ati.
- c) **Datblygu Cysylltiadau gydag Ysgolion Cynradd y Sir** – Ers cychwyn yn ei swydd newydd fis Ionawr mae Swyddog Hyrwyddo a Datblygu'r Gymraeg wedi bod wrthi'n creu cysylltiadau gyda'r holl ysgolion cynradd o fewn y sir, sy'n ffordd wych o hyrwyddo'r Gymraeg ymysg plant.
- ch) **Wythnos y Dysgwyr** – Roeddem wedi gwirioni bod un o'n dysgwyr wedi llwyddo i gynnal cyfweiliad yn gyfan gwbl yn Gymraeg ar Radio Cymru yn ystod Wythnos y Dysgwyr.
- d) **Gwaith Cyfieithu** – Dros y dair blynedd diwethaf, mae nifer y geiriau ydym ni wedi'u cyfieithu ar gyfer Cyngor Conwy wedi parhau i gynyddu'n sylweddol. Erbyn hyn, rydym yn cyflogi 26 cyfieithydd. Ers mis Gorffennaf 2020, rydym wedi cyfieithu o gwmpas 1 miliwn o eiriau bob mis, a thua 200,000 o eiriau yn fwy y mis nag yn ystod 2019-2020. Ym mis Mawrth eleni, cyfieithom y swm mwyaf erioed o eiriau sef 1.2 miliwn o eiriau, ar draws y 5 sefydliad yr ydym yn cyfieithu iddynt, sy'n swm cwbl syfrdanol o eiriau.
- dd) **Cyfieithu ar y pryd** – Ym mis Mai 2020, ers i'n cyfarfodydd i gyd droi yn rhai rhithwir dros Zoom bu modd i'r Cynghorwyr, y swyddogion a'r aelodau o'r cyhoedd fu'n bresennol ym mhob cyfarfod gyfrannu at y cyfarfod yn eu dewis iaith, boed hynny'n Gymraeg neu'n Saesneg, fel sy'n arferol yn ein cyfarfodydd i gyd wrth gwrs. 2020-2021 oedd y flwyddyn brysuraf ydym ni wedi'i chael o ran cyfieithu ar y pryd erioed.

- e) **Gwersi Cymraeg** – Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith bod 48 aelod o'n staff wedi gallu parhau i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg a chyfrannu mewn ffordd fechan, ond pwysig iawn, tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
- f) **Gwobrau Cymraeg Gwaith** – Enillodd ein Tiwtor Cymraeg y wobwr Tiwtor Cymraeg y Flwyddyn yn y Gwobrau Cymraeg Gwaith Cenedlaethol. Gwobr cwbl haeddiannol sy'n adlewyrchu ymroddiad y tiwtor at ei gwaith. Roeddem hefyd yn hynod o falch bod y Cyngor wedi cael 3ydd yn y categori Cyflogwr y Flwyddyn am ein hymroddiad i hyrwyddo'r Gymraeg a dysgu Cymraeg yn y Cyngor.
- ff) **Cynllun Siarad yn y Gwaith** – Ddechrau 2021, fe wnaethom lansio Cynllun Siarad yn y Gwaith lle mae dysgwyr ar lefel Canolradd yn cael ei baru efo siaradwr Cymraeg rhugl er mwyn sgwrsio'n anffurfiol. Ar hyn o bryd mae gennym 9 pâr sy'n cyfarfod yn rheolaidd fel rhan o'r Cynllun Siarad yn y Gwaith.

3.2 Edrych i'r Dyfodol

3.2.1 Yn ystod y flwyddyn nesaf, rydym yn bwriadu datblygu'r materion a ganlyn, ymysg lluo o ddatblygiadau llai:

- a) **Strategaeth Hybu'r Gymraeg** – Yn ystod y flwyddyn, byddwn yn datblygu'r Strategaeth Hybu'r Gymraeg yn sylweddol. Ein bwriad yw sicrhau y bydd yr iaith Gymraeg yn ffynnu ymhellach fyth yng Nghonwy, gan osod y sir yng nghanol strategaeth a nod Llywodraeth Cymru o greu neu sicrhau 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a chreu Conwy yn sir lle mae diwylliant Cymraeg a Chymreig yn hyfyw ac yn fywiog ac lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu ac yn datblygu.
- b) **Dydd Miwsig Cymru** – Er mwyn adeiladu ar lwyddiant dathlu Dydd Miwsig Cymru eleni a cheisio sicrhau bod cerddoriaeth Gymraeg yn cael ei dathlu a'i mwynhau drwy gydol y flwyddyn, rydym yn bwriadu datblygu'r syniad o 'Band y Mis'. Ar ddechrau bob mis bydd poster 'band y mis' yn cael ei anfon i'r ysgolion. Mi fydd y poster yn cynnwys enw band Cymraeg a rhestr o ganeuon addas i wrando arnynt.
- c) **Gwersi Cymraeg - Cwrs Cyfunol** – Ym mis Mai, rydym yn bwriadu ychwanegu at ein darpariaeth bresennol drwy gychwyn cynnig cwrs newydd gyda Chymraeg Gwaith sef cwrs Hunan-Astudio ar-lein ar lefel Mynediad 1. Bydd y cwrs yn cymryd hyd at 60 awr o hunan-astudio ar-lein ond efo sesiynau 2 awr o adolygu o dan arweiniad tiwtor unwaith bob tair wythnos. Yn ogystal â hyn bydd cefnogaeth tiwtor ar gael dros y ffôn neu drwy e-bost. Gobeithio bydd modd cynnig cwrs tebyg ar lefel Mynediad 2 yn hwyrach ymlaen yn y flwyddyn.

4.0 Gwybodaeth am y flwyddyn 2020-2021

4.1 Penodi Swyddog Hyrwyddo a Datblygu'r Gymraeg

4.1.1 Rydym yn hynod o falch o fedru nodi ein bod wedi penodi Swyddog Hyrwyddo a Datblygu'r Gymraeg i'r Cyngor, a dechreuodd y swyddog yn ei swydd ym mis Ionawr. Mae hon yn swydd newydd i'r Cyngor, ac yn un cyffrous iawn oherwydd nid yn unig y bydd yn gweithio'n fewnol gyda staff y Cyngor, bydd hefyd yn gweithio gydag ysgolion, y cyhoedd ac ati i hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg tu allan i'r Cyngor hefyd.

4.2 Grŵp Llywio'r Gymraeg

4.2.1 Yn ystod 2020, sefydlwyd grŵp newydd, Grŵp Llywio'r Gymraeg. Grŵp mewnol ydi'r grŵp, a'i fwriad penodol ydi ystyried a thrafod materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn y Cyngor, boed yn faterion o arferion da i'w dathlu a'u datblygu, neu unrhyw fater sy'n codi sy'n is na'r safon rydym ni'n anelu ati, yn faterion lle mae angen gwelliant gyda gwasanaeth penodol / agwedd benodol o'n gwaith ac ati.

4.2.2 Bwriedir cynnal y cyfarfod rhyw deirgwaith neu bedair gwaith y flwyddyn. Bydd rhaglen waith a chymau gweithredu yn deillio o'r grŵp, a bydd yn fodd o ddatblygu'r iaith Gymraeg yn fewnol yn y Cyngor, a chodi proffil yr iaith yn allanol yn ein cymunedau hefyd. Bydd cyfieithydd ar y pryd yn bresennol ym mhob cyfarfod. Ar hyn o bryd, bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal dros Zoom.

4.2.3 Wrth sefydlu'r Grŵp, roedd ei aelodaeth yn agored i unrhyw Gynghorydd sydd â diddordeb ym maes y Gymraeg. Er mwyn sicrhau bod cynrychiolaeth wleidyddol ar y Grŵp, cynigiwyd lle i un Cynghorydd o bob grŵp gwleidyddol, os dymunant hynny. Manteisiodd sawl plaid/grŵp ar y cynnig a chafwyd enwebiadau unigol hefyd.

4.3 Datblygu Cysylltiadau gydag Ysgolion Cynradd y Sir

4.3.1 Ers cychwyn yn ei swydd newydd fis Ionawr mae Swyddog Hyrwyddo a Datblygu'r Gymraeg wedi bod wrthi'n creu cysylltiadau gyda'r holl ysgolion cynradd o fewn y sir. Ceir gwybodaeth am ychydig o'r gwaith isod.

4.4 Dathlu Dydd Miwsig Cymru 2021

4.4.1 Ar 5 Chwefror eleni, roedd hi'n Ddydd Miwsig Cymru. Er mwyn codi ymwybyddiaeth am y diwrnod, penderfynwyd creu rhestr chwarae fer gyda 5 cân Gymraeg i'r ysgolion ei rhannu gyda'r disgyblion. Crëwyd cod QR er mwyn ei gwneud hi'n haws dod o hyd i'r rhestr chwarae, a chafodd ei roi ar boster a'i rannu gyda'r ysgolion dros e-bost. Y bwriad oedd hyrwyddo Dydd Miwsig Cymru a'i gwneud hi ychydig yn haws i staff ysgolion drwy ddewis y caneuon drostynt. Cafwyd adborth cadarnhaol gan yr athrawon ac roedden nhw'n gwerthfawrogi'r rhestr chwarae yn fawr. Sganiwyd y cod QR ychydig dros 100 o weithiau, gyda'r rhan fwyaf wedi'i sganio ddydd Gwener, 5 Chwefror. Rydym yn ymwybodol fod ambell i athro/athrawes wedi sganio'r cod unwaith ond wedi chwarae'r rhestr chwarae i ddosbarthiadau cyfan yn eu gwersi ar-lein sy'n golygu bod y nifer o blant yng Nghonwy gafodd ddathlu Dydd Miwsig Cymru a mwynhau'r gerddoriaeth yn sicr o fod llawer yn uwch.

4.5 Dathlu Diwrnod Shw Mae Su' Mae 2020

4.5.1 Dathlwyd Diwrnod Shw Mae Su' Mae eleni drwy gynnwys neges fewnol i staff y Cyngor a rhoddwyd neges ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cyngor hefyd. Cynhaliwyd sesiwn panad a sgwrs rhithwir ar gyfer y dysgwyr a siaradwyr Gymraeg. Roedd cyfle yn ystod y

bore i gael paned a sgwrsio yn Gymraeg. Roedd yr ymateb i'r digwyddiad yn gadarnhaol ac roedd pob un o'r dysgwyr a fynychodd wedi mwynhau siarad yn Gymraeg efo cydweithwyr.

4.6 Dathlu Wythnos y Dysgwyr, Hydref 2020

4.6.1 Fel rhan o ddathliadau Wythnos y Dysgwyr, ac oherwydd llwyddiant ein Cynllun Dysgu Cymraeg, cawsom gais gan Radio Cymru yn holi a fyddai un o'n dysgwyr yn fodlon gwneud cyfweiliad ar y Radio. Rydym yn falch iawn bod un o'n dysgwyr, sy'n dysgu Cymraeg ers 3 blynedd wedi cytuno, ac wedi gwneud cyfweiliad yn gyfan gwbl yn Gymraeg. Camp anhygoel yn wir! Roeddem wedi gwirioni ei glywed ac mae'n haeddu canmoliaeth mawr am ei lwyddiant.

4.7 Dathlu Dydd Gŵyl Dewi 2021

4.7.1 Er mwyn dathlu Dydd Gŵyl Dewi eleni cynhaliwyd cystadleuaeth celf a chreffft i blant ysgolion cynradd Conwy. Briff y gystadleuaeth oedd creu darn o gelf 2 neu 3-d dim mwy na maint A4 ar y thema Dydd Gŵyl Dewi. Hysbysebwyd y gystadleuaeth drwy neges e-bost at yr ysgolion i'w hanfon ymlaen at rieni ac hefyd ar y cyfryngau cymdeithasol drwy dudalen Digwyddiadau Conwy. Cafodd y gystadleuaeth ei rhannu hefyd ar y cyfryngau cymdeithasol gan fudiadau eraill yn y sir megis Menter Iaith Conwy ac Urdd Conwy. Cafwyd ymateb gwych i'r gystadleuaeth gyda phlant o 15 ysgol wahanol yn cymryd rhan, 8 ysgol cyfrwng Cymraeg a 7 ysgol Saesneg. O'r 7 ysgol Saesneg roedd 4 yn ysgolion categori 4 (ysgol sy'n bennaf yn Saesneg ei chyfrwng ond gyda defnydd arwyddocaol o'r Gymraeg) a 3 yng nghategori 5 (ysgol sy'n bennaf Saesneg ei hiaith).

4.7.2 Bu'r dysgwyr yn dathlu dydd Gŵyl Dewi hefyd drwy fynychu gig rhithwir ar y cyd efo Cynllun Cymraeg Gwaith Ceredigion. Yn ystod y digwyddiad roedd cyfle i glywed Gwilym Bowen Rhys ac Owen Shiers yn canu alawon gwerin a oedd yn lleol i ardaloedd Conwy a Cheredigion ac yna cafodd dysgwyr y ddwy ardal gyfle i sgwrsio'n anffurfiol efo'i gilydd mewn grwpiau bach. Roedd y digwyddiad yn llwyddiannus iawn a gobeithir y bydd cyfleoedd eraill yn y dyfodol i gynnal gweithgareddau ar y cyd rhwng y ddwy ardal.

4.7.3 Yn ogystal â hyn, cynhaliwyd cystadleuaeth ffotograffiaeth i'r dysgwyr ar ddydd Gŵyl Dewi. Roedd disgwyl i'r dysgwyr dynnu llun o'i milltir sgwâr ac yna ysgrifennu dim mwy na 100 gair yn y Gymraeg i gyd-fynd. Penderfynwyd creu 4 categori i'r gystadleuaeth sef mynediad, sylfaen, canolradd ac uwch gan mai dyma'r lefelau mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol yn eu defnyddio. Cafwyd ceisiadau gan amrywiaeth o ddysgwyr o'r 4 categori. Roedd hi'n wych gweld y dysgwyr yn mentro ac yn hapus a digon hyderus i gymryd rhan yn y gystadleuaeth.

4.8 Teclyn Sgiliau Iaith a Negeseuon E-bost

4.8.1 Bu'r teclyn hwn ar waith ers dros bedair blynedd bellach, ac mae'n parhau i fod yn llwyddiannus iawn. Drwy gymorth y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth, mae'r Teclyn Sgiliau Iaith wedi'i gysylltu â'r rhestr staff sydd â chyfrif e-bost. Felly, os ydi aelod o staff yn ysgrifennu neges e-bost at aelod arall o staff y Cyngor, a bod yr aelod hwnnw o staff yn siarad Cymraeg yn rhugl, bydd neges yn ymddangos uwchben ei enw ar y neges yn dweud: "Rydw i'n siarad Cymraeg / I can speak Welsh".

4.8.2 Mae'r teclyn hwn wedi bod yn amhrisiadwy yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gan fod mwyafrif helaeth staff y Cyngor yn gweithio o gartref a llawer iawn o'n gwaith yn cael ei wneud dros e-bost. Mae'r teclyn o gymorth mawr i staff y Cyngor wrth gyfathrebu â staff eraill ac yn golygu ei bod hi'n haws o lawer gwybod beth yw sgiliau iaith y staff yr ydych yn cysylltu â nhw. Dros y flwyddyn ddiwethaf, cysylltodd mwy o aelodau staff nag erioed â'r

Gwasanaeth Iaith Gymraeg a Chyfieithu i ddweud pa mor ddefnyddiol ydi'r teclyn hwn gan nodi eu bod wedi cychwyn llawer mwy o sgysiau dros e-bost yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn oherwydd ei fodolaeth.

4.9 Logo Iaith Gwaith/Brawddeg ar waelod e-bost

4.9.1 Mae staff sy'n medru'r Gymraeg yn cynnwys logo ar waelod eu llofnod e-bost i adael i gwsmeriaid a chydweithwyr wybod eu bod yn medru'r Gymraeg. Yn yr un modd, rydym wedi datblygu logo ar gyfer dysgwyr sy'n nodi 'Dw i'n dysgu Cymraeg'. Mae nifer fawr o ddsygwyr wedi cynnwys y logo hwn ar waelod eu llofnod e-bost.

4.9.2 Yn ystod ymchwiliadau siopwyr cudd Comisiynydd y Gymraeg y llynedd, fe welwyd nad oedd llofnod e-bost pob aelod o staff yn cynnwys brawddeg yn nodi na fyddai oedi wrth ymdrin â neges a anfonir atom yn Gymraeg, fel sy'n ofynnol yn unol â Safonau'r Gymraeg a Pholisi'r Gymraeg y Cyngor. Er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei chynnwys ar bob cyfrif, fe newidiodd y drefn arferol o gynnwys y frawddeg fel rhan o'r llofnod e-bost, a bellach mae'n cael ei chynnwys fel rhan awtomatig o bob neges e-bost sy'n cael ei hanfon yn ddi-odyn.

4.10 Gwaith Cyfieithu'r Gwasanaeth Iaith Gymraeg a Chyfieithu

4.10.1 Ar wahân i chwarter cyntaf 2020-2021, pan ostyngodd ein gwaith yn sylweddol ar ddechrau pandemig y coronafeirws, rydym wedi cyfieithu o gwmpas 1 miliwn o eiriau bob mis ers mis Gorffennaf 2020. Hyd yn oed mewn misoedd sydd fel arfer yn fwy distaw fel Awst a Rhagfyr, fe wnaethom gyfieithu tua 200,000 gair yn fwy yn y misoedd hynny nag yn 2020-2021. Ym mis Mawrth eleni, cyfieithom y swm mwyaf erioed o eiriau sef 1.2 miliwn o eiriau, ar draws y 5 sefydliad yr ydym yn cyfieithu iddynt, sy'n swm cwbl syfrdanol o eiriau.

4.11 Cyfieithu ar y pryd

4.11.1 Ers mis Mai 2020, symudodd ein cyfarfodydd i gyd yn rhai rhithwir dros Zoom a bu'n rhaid dysgu am system newydd i gyfieithu ar pryd arno. O'n cyfarfod rhithwir cyntaf ym mis Mai 2020 ymlaen, bu modd i'r Cynghorwyr, y swyddogion a'r aelodau o'r cyhoedd oedd yn bresennol gyfrannu at y cyfarfodydd yn eu dewis iaith, boed hynny'n Gymraeg neu'n Saesneg, fel sy'n arferol yn ein cyfarfodydd i gyd wrth gwrs. Ers hynny, rydym wedi cynnal nifer fawr o gyfarfodydd bob wythnos ar Zoom, boed hynny'n Bwyllgorau swyddogol y Cyngor neu'n gyfweiliadau am swydd. Yn ystod y cyfnod hwn, mae nifer fawr o Gynghorwyr nad ydynt yn rhugl yn Gymraeg/nad ydynt yn siarad Cymraeg wedi cychwyn pleidleisio drwy ddweud "O blaid" / "Yn erbyn" bob amser, sy'n wych i'w glywed.

4.12 Fforwm Iaith / Is-bwyllgor Strategol

4.12.1 Mae'r Cyngor yn rhan o Fforwm Iaith Conwy unwaith eto eleni ac mae'r fforwm yn parhau i gyfarfod yn chwarterol. Mae'r fforwm yn rhoi'r cyfle i bawb sy'n rhan ohono rannu arfer da a diweddarau ein gilydd o'r gwaith da sy'n cael ei wneud i godi proffil yr iaith yn lleol. Mae'r Fforwm hefyd yn gyfle gwych i gyd-weithio gyda mudiadau/gwasanaethau eraill o fewn y sir ar amrywiaeth o brosiectau.

4.12.2 Yn deillio o'r Fforwm Iaith mae'r Is-bwyllgor Strategol. Mae hwn yn bwyllgor strategol newydd sbon yng Nghonwy. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf yr Is-bwyllgor ar 17 Mawrth. Ar y cyd ag aelodau eraill yr Is-Bwyllgor, mae'r Fenter yn awyddus i helpu i hyrwyddo llawer o agweddau ar Strategaeth Hybu'r Cyngor, ynghyd ag agweddau eraill o'u gwaith. Yn dilyn cyfarfod diweddar gyda Chyngor Sir Caerfyrddin, cafodd y Fenter ganiatâd i ddilyn eu strwythur o hyrwyddo addysg Gymraeg yn ogystal â'r mudiadau allanol sy'n cefnogi a chynnig cyfleoedd i deuluoedd drwy'r Gymraeg.

4.13 Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg

4.13.1 Rydym yn falch iawn o'r cydweithio agos sy'n digwydd rhyngom ni a swyddogion o'r Gwasanaeth Addysg. Gan fod Rheolwr y Gwasanaeth Iaith Gymraeg a Chyfieithu a'r Swyddog Hyrwyddo a Datblygu'r Gymraeg yn rhan o Grŵp Llywio'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, ac yn gweithio'n agos gyda swyddogion o'r Gwasanaeth Addysg ar wahanol agweddau ar y gwaith, rydym yn rhan o drafodaethau pwysig iawn ynglŷn ag Addysg Gymraeg yng Nghonwy. Yn yr un modd, mae swyddogion o'r Gwasanaeth Addysg yn awyddus iawn i gyfrannu tuag at y Gymraeg yn ehangach ar draws y Cyngor hefyd ac yn cydweithio gyda ni ar sawl elfen ar hyn o bryd. Rydym yn edrych ymlaen yn eiddgar i weld ffrwyth llafur y gwaith yn ystod y flwyddyn nesaf.

4.14 Gwersi Cymraeg

4.14.1 Mae staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi medru manteisio ar gynllun Dysgu Cymraeg arloesol, diolch i bartneriaeth gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a Dysgu Cymraeg Gogledd-Orllewin, sef darparwr y cyrsiau. Yn dilyn llwyddiant y cyrsiau Cymraeg Gwaith rhwng Medi 2018 a Mawrth 2019, lle bu 73 aelod o staff y Cyngor a 2 Gynghorydd yn mynychu gwersi Cymraeg drwy'r cynllun, roeddem yn hynod o falch o gael ein dewis i fod yn rhan o gynllun peilot yn ystod 2019-2020 ac yn rhan o gynllun pwrpasol eto yn ystod 2020-2021. Mae'r cynllun yn rhan o raglen 'Cymraeg Gwaith' y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae'r Cyngor yn falch iawn o gael y buddsoddiad enfawr hwn gan y Ganolfan er mwyn datblygu sgiliau Cymraeg staff y Cyngor. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn un eithaf gwahanol wrth gwrs, ac mae'r gwersi i gyd wedi bod ar-lein ers diwedd mis Mawrth y llynedd.

4.14.2 Nod y Cynllun Cymraeg Gwaith yw cryfhau sgiliau Cymraeg mewn gweithleoedd ledled Cymru ac mae'n cynnig hyfforddiant addas, hyblyg, sydd wedi ei ariannu'n llwyr.

4.14.3 Mae hyn wedi bod yn ddatblygiad cyffrous iawn, ac mae'r cyrsiau hyn wedi gwneud gwahaniaeth mawr i ddarpariaeth gwersi Cymraeg i staff y Cyngor, yn enwedig cael Tiwtor Cymraeg yma'n llawn amser gyda ni. Mae cael tiwtor yn gweithio efo ni drwy'r wythnos, sydd â chyfrif e-bost Cyngor Conwy, wedi golygu bod mwy o gysylltiad rhyngddi hi a'r dysgwyr.

4.14.4 Eleni, cynhaliwyd 5 cwrs rhwng mis Ebrill 2020 a Gorffennaf 2020, yna cynyddwyd y nifer o gyrsiau i 6 cwrs rhwng Medi 2020 a Mawrth 2021 ar lefelau Mynediad, Sylfaen a Chanolradd. Bu dros 50 aelod o staff yn mynychu'r cyrsiau hyn yn ystod y flwyddyn. Mae'r cyrsiau i gyd yn mynd o nerth i nerth ac rydym yn falch iawn o gyflwyno gwybodaeth am lwyddiant ysgubol y cyrsiau. Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith bod staff yn gallu parhau i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg a chyfrannu mewn ffordd fechan, ond pwysig iawn, tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

4.14.5 Mae pob dosbarth yn y Cynllun yn cynnwys amrediad eang o staff o wahanol adrannau'r Cyngor, gyda nifer fawr o'r staff yn gweithio yng ngwasanaethau rheng-flaen y Cyngor fel y Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaeth Addysg, Gwasanaeth Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau a'r Gwasanaethau Rheoleiddio. Mae pob dosbarth hefyd yn cynnwys unigolion o wahanol haenau o awdurdod o fewn y Cyngor.

4.15 Gwobrau Cymraeg Gwaith

4.15.1 Roeddem wedi gwirioni clywed fod Menna, ein Tiwtor Cymraeg, wedi ennill y wobwr Tiwtor y Flwyddyn yn y Gwobrau Cymraeg Gwaith ddiwedd mis Mawrth. Gwobr cwbl haeddiannol sy'n adlewyrchu ymroddiad Menna at ei gwaith, ac hefyd faint o feddwl sydd gan y dysgwyr ohoni. Roeddem hefyd yn hynod o falch bod y Cyngor wedi cael 3ydd yn y

categori Cyflogwr y Flwyddyn am ein hymroddiad i hyrwyddo'r Gymraeg a dysgu Cymraeg yn y Cyngor. Braint ac anrhydedd llwyr oedd cael y gwobrau hyn.

4.16 Cynllun Siarad yn y Gwaith

4.16.1 Mae manteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio ac ymarfer Cymraeg yn holl bwysig er mwyn sicrhau datblygiad parhaus y dysgwyr sy'n rhan o'r cynllun Cymraeg Gwaith. Yn ystod cynllun 2019-2020, fe wnaeth rai o'r dysgwyr enwi aelodau o staff yn eu hadrannau sy'n siarad Cymraeg a oedd yn fodlon eu cefnogi yn y gwaith i ddefnyddio ac ymarfer eu Cymraeg pan fo cyfleoedd yn codi a buont yn gwneud defnydd o'r Gymraeg gyda'r bobl hyn. Ond, yn sgil y pandemig, mae'r rhan fwyaf o'r staff bellach yn gweithio o gartref ers mis Mawrth 2020, ac felly, nid yw'r cyfleoedd parod hynny i siarad efo cydweithwyr a chlywed y Gymraeg yn cael ei siarad o'u cwmpas yn y swyddfa yn bosib bellach. Roedd yn amlwg felly bod angen dod o hyd i gyfleoedd eraill i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod y cyfnod gweithio o gartref.

4.16.2 Ym mis Ionawr 2021, fe wnaethom lansio cynllun mentora lle'r oedd dysgwr ar lefel Canolradd yn cael y cyfle i gael ei baru efo siaradwr Cymraeg rhugl er mwyn sgwrsio'n anffurfiol. Cynhaliom sesiwn friffio efo'r siaradwyr rhugl ynglŷn â phwrpas a gofynion y cynllun, ac yn dilyn y sesiwn honno fe lansiwyd Cynllun Siarad yn y Gwaith, Cyngor Conwy. Ar hyn o bryd mae gennym 9 pâr sy'n cyfarfod yn rheolaidd fel rhan o'r Cynllun Siarad yn y gwaith ac yn sgil llwyddiant y 9 pâr yma, mae dysgwr eraill wedi dangos diddordeb yn y cynllun, ac rydym yn gobeithio eu paru gyda siaradwr Cymraeg rhugl yn ystod yr wythnosau nesaf.

4.17 Gwasanaethau'r Cyngor

4.17.1 **Prif dderbynfa** - Lleolir dwy brif dderbynfa/switsfwrdd y Cyngor ym mhrif swyddfeydd y Cyngor ym Modlondeb, Conwy a Choed Pella, Bae Colwyn. Dynodwyd pob un o swyddi'r prif derbynfeydd/switsfwrdd yn rhai Cymraeg hanfodol ac mae pob un o'r 12 aelod o staff (100%) sy'n gweithio yno yn ddwyieithog ac yn meddu ar sgiliau iaith Gymraeg lefel 4 neu uwch. Wrth gwrs, mae'r derbynfeydd wedi bod ar gau dros y flwyddyn ddiwethaf oherwydd y coronafeirws, ond mae'r staff hyn yn parhau i ddelio efo'r galwadau ffôn sy'n ein cyrraedd ar brif rif y Cyngor. Mae'r galwadau wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wrth gwrs oherwydd bod ein swyddfeydd ar gau.

4.17.2 Venue Cymru & Theatr Colwyn

4.17.2.1 Ers blwyddyn, wrth gwrs, ni chynhaliwyd unrhyw ddigwyddiad yn Venue Cymru oherwydd y pandemig, ond, bu'r tîm yn brysur yn trefnu llu o ddigwyddiadau ar-lein, yn rhai Cymraeg a dwyieithog, i enwi rhai yn unig:

- Gemau drama a mwy yn Gymraeg i blant gyda Siwan Llynor: <https://www.youtube.com/watch?v=i92zyRye09w>
- Creu Pyped o'r Mabinogi: <https://www.youtube.com/watch?v=qHKdNnKh1AY>
- Sut i greu dawnys ar ffilm gyda Jasmin Cash: <https://www.youtube.com/watch?v=Xtak9WtZNPc&t=285s>
- Ar Lan y Môr, sesiwn fywiog, llawn symudiadau ar gyfer plant ieuengach, a'r oedolion yn eu bywydau: <https://www.youtube.com/watch?v=spNXrb8599A>
- Antur yn y Jyngl: <https://www.youtube.com/watch?v=FL0sEz4u958>

- Symud gydag Emma-Jane: https://www.youtube.com/watch?v=iva_C9wJl38
- Gyda'r actor S4C, Carwyn Glyn: https://www.youtube.com/watch?v=ZvR_E1Q1yYU&t=256s

4.17.3 Llyfrgelloedd

- 4.17.3.1 Mae'r gwasanaeth wedi darparu ei gysylltiadau cymunedol a chyhoeddus yn ddigidol drwy gydol 2020-2021. Yn ogystal â chyfrif Facebook, mae plattfform digidol y llyfrgelloedd bellach yn cynnwys Twitter ac Instagram a lansiwyd yn ystod y flwyddyn.
- 4.17.3.2 Mae lluo o ddigwyddiadau wedi cael eu cynnig yn ddwyieithog neu'n Gymraeg megis sesiynau crefft, amseroedd stori ac ymgyrchoedd penodol, e.e. 12 o Gerddi'r Nadolig (Cymraeg a Saesneg).
- 4.17.3.3 Yn ystod y flwyddyn, gwelwyd cynnydd yn y defnydd o'r fersiwn Gymraeg o'n catalog llyfrgell ar-lein:
- Ymwelwyr - 1353 (+12%)
 - Tudalennau a ddarllenwyd yn Gymraeg 7806 (+3.4%)
 - Ymwelwyr unigryw – 916 (+8.5%)
- 4.17.3.4 Ehangwyd yr adnoddau digidol sydd ar gael i'n cwsmeriaid, drwy weithgareddau a luniwyd ar gyfer y plattfform digidol, ac fe ddatblygom y rhyngweithio ar y safleoedd hyn. Cynyddwyd y llwyfannau lle ceir e-lyfrau ac e-lafar Cymraeg. Erbyn hyn, mae ystod ehangach o deitlau ar gael drwy'r Gymraeg ar ein e-plattfform, gan gynnwys e-gomics a chylchgronau megis Mellten, Lingo, Cara ac Y Wawr. Mae'r sector llyfrgelloedd cyhoeddus yn gweithio gyda'r Asiantaeth Ddarllen, Cyngor Llyfrau a gweisg Cymru i ehangu'r ddarpariaeth yma ymhellach.
- 4.17.3.5 Yn ystod y flwyddyn, drwy gefnogaeth ariannol Llywodraeth Cymru, mae'r ddarpariaeth yn y Gymraeg ar lyfrau ac e-lyfrau lechyd a Lles wedi ehangu. Mae mwy o deitlau wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg yn y 'Cynllun Darllen yn Well' ar gyfer Oedolion, a'r Cynllun Plant wedi ei lansio. Rydym wedi bod yn hybu'r adnoddau hyn sydd ar gael o'r newydd a cheir rhagor o wybodaeth ar [ein gwefan](#).
- 4.17.3.6 Darparwyd Cynllun Darllen yr Haf (5-11oed) drwy'r dull arferol gyda phecynnau hybu a chymell gyda'r pecynnau llyfrau ac yn ddigidol ar gyfer y rhai oedd yn hoff o wneud hyn neu nad oedd yn hyderus i ymweld â'r llyfrgell yn ystod y pandemig.
- 4.17.3.7 Bu gweithgareddau ar gael yn ystod y cyfnod clo drwy dudalennau Facebook Diwylliant a'r Llyfrgell megis ar gyfer Diwrnod Chwarae Cenedlaethol lle cafodd ffilm Gwesty Pryfed ei hybu. Lluniwyd deunydd i'w gylchredeg ar gyfer sesiynau chwarae dwyieithog i rai o dan 5 oed yn Rhagfyr 2020 a chafodd pecynnau gweithgareddau dwyieithog i deuluoedd eu cefnogi gan y Canolfannau Teulu (266 pecyn).
- 4.17.3.8 Drwy Brosiect 'Dychmygwch' Bae Colwyn cafwyd cystadleuaeth i blant oedran cynradd ar gyfer Gŵyl Dewi.
- 4.17.3.9 Mewn cydweithrediad â'r Canolfannau Teulu, darparwyd llyfrau Cymraeg a Saesneg i deuluoedd ac amser stori dyddiol (mis Rhagfyr i fis Mawrth). Darparwyd 74 amser stori yn y Gymraeg drwy'r prosiect hwn. Roeddent ar gael drwy Facebook y llyfrgell. Cafwyd adborth cadarnhaol iawn, gyda theuluoedd lleol a thu hwnt yn mwynhau

gwrando ar y straeon yn y Gymraeg - roedd teulu yn Seland Newydd hyd yn oed yn gwrando arnynt.

4.17.3.10 Drwy'r prosiect Estyn Allan digidol, mae nifer o ddatblygiadau i'w gweld. Un o'r rhain yw podlediad o gyfweiliad gyda'r awdur Rhian Cadwaladr.

4.18 Sgiliau iaith Gymraeg Staff y Cyngor

4.18.1 Ers datblygu teclyn sy'n ymddangos ar gyfrifiaduron pawb sy'n medru casglu gwybodaeth am sgiliau ieithyddol y staff gyda'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth, bu gwelliant yng nghywirdeb cofnodi ystadegau sgiliau ieithyddol staff. Bellach, mae bob aelod o staff y Cyngor yn medru defnyddio'r teclyn hwn, ac rydym, gyda chymorth y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth wedi casglu gwybodaeth am bob aelod o staff erbyn hyn, gan gynnwys y rhai nad ydynt â mynediad i'r fewnwyd. Ac eithrio ysgolion, a staff sy'n gweithio i awdurdodau eraill, mae'r awdurdod yn cyflogi 1,888 o staff parhaol. Dyma fanylion sgiliau iaith Gymraeg y 1,888 o staff sydd wedi llenwi gwybodaeth am eu sgiliau iaith Gymraeg:

Sgiliau iaith Gymraeg Staff y Cyngor:

Gwrando / Siarad			
Lefel		Nifer y staff	%
Lefel 0		413	22
Lefel 1	DYSGU CYMRAEG	504	27
Lefel 2		208	11
Lefel 3		181	9
Lefel 4	RHUGL CYMRAEG	193	10
Lefel 5		389	21
CYFANSWM		1,888	

Darllen / Deall			
Lefel		Nifer y staff	%
Lefel 0		449	24
Lefel 1	DYSGU CYMRAEG	473	25
Lefel 2		187	10
Lefel 3		183	10
Lefel 4	RHUGL CYMRAEG	196	10
Lefel 5		400	21
CYFANSWM		1,888	

Ysgrifennu			
Lefel		Nifer y staff	%
Lefel 0		604	32
Lefel 1	DYSGU CYMRAEG	432	23
Lefel 2		199	11
Lefel 3		159	8
Lefel 4	RHUGL CYMRAEG	189	10
Lefel 5		305	16
CYFANSWM		1,888	

4.18.2 Mae staff y Cyngor wedi defnyddio'r teclyn ar y fewnwyd i nodi eu sgiliau iaith Gymraeg gan ddefnyddio'r tabl a welir ym Mholisi'r Gymraeg.

4.18.3 O'r tabl, gwelir bod 31% wedi nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg rhugl (Lefel 4 a 5) eleni, sef union yr un ffigur â'r llynedd. Mae hyn yn gyson â 29% o staff a nododd eu bod yn siaradwyr Cymraeg rhugl yn ystod 2018-19 a 30% o staff a nododd eu bod yn siaradwyr Cymraeg rhugl yn ystod 2017-18.

4.18.4 Gellir gweld y dadansoddiad fesul gwasanaeth isod. Yn y tabl, gellir gweld bod canrannau siaradwyr Cymraeg bob gwasanaeth heblaw am y Gwasanaeth Datblygu Cymunedol naill ai wedi cynyddu neu heb newid ers y llynedd sy'n gadarnhaol iawn. Er mai canran fechan o newid fuodd eleni, byddwn yn cadw llygaid ar y Gwasanaeth Datblygu Cymunedol yn ystod y flwyddyn nesaf.

Sgiliau Cymraeg Staff y Cyngor fesul gwasanaeth:

Gwasanaeth	Cyfanswm Staff	Nifer y staff sy'n siarad Cymraeg yn rhugl (Lefelau 4 a 5)	Newid canran o 2019-20?	Nifer y staff sy'n Dysgu Cymraeg (Lefelau 1, 2 a 3)	Newid canran o 2019-20?	Nifer y staff sydd â dim gallu Cymraeg (Lefel 0)
Adnoddau Dynol	22	6 (27%)	Dim newid	11 (50%)	Dim newid	5 (23%)
Adran y Prif Weithredwr	6	1 (16.5%)	Dim newid	4 (67%)	Dim newid	1 (16.5%)
Addysg	133	66 (50%)	Dim newid	51 (38%)	+3%	16 (12%)
Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau	233	65 (28%)	Dim newid	111 (48%)	+3%	57 (24%)
Archwilio Mewnol	12	1 (8%)	Dim newid	7 (58.5%)	Dim newid	4 (33.5%)
Gwasanaeth Ariannol Corfforaethol	41	10 (24%)	Dim newid	20 (49%)	Dim newid	11 (27%)
Gwasanaeth Datblygu Cymunedol	267	87 (33%)	-4%	141 (52%)	+5%	39 (15%)
Gwasanaeth Digwyddiadau Corfforaethol, Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Marchnata	12	3 (25%)	Dim newid	5 (42%)	Dim newid	4 (33%)
Gwasanaethau Cymdeithasol – Oedolion	544	154 (28%)	Dim newid	267 (49%)	Dim newid	123 (23%)
Gwasanaethau Cymdeithasol – Plant	183	39 (21%)	+1%	70 (38%)	-1%	74 (41%)
Refeniw a Budd-daliadau	72	21 (29%)	Dim newid	33 (46%)	Dim newid	18 (25%)
Rheoleiddio a Thai	137	35 (26%)	Dim newid	80 (58%)	Dim newid	22 (16%)
Rheoli Stadau ac Asedau	7	2 (29%)	Dim newid	4 (57%)	Dim newid	1 (14%)
Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid Digidol	60	15 (25%)	Dim newid	29 (49%)	-1%	16 (26%)
Theatrau a'r Ganolfan Gynadledda	75	18 (24%)	Dim newid	38 (51%)	+3%	19 (27%)
Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol	10	1 (10%)	Dim newid	7 (70%)	Dim newid	2 (20%)
Y Gyfraith a Llywodraethu	74	58 (78.5%)	+1.5%	15 (20%)	Dim newid	1 (1.5%)
CYFANSWM	1888	582 (31%)		893 (47%)		413 (22%)

4.19 Recriwtio - Swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn

- 4.19.1 Mae pob swydd sy'n cael ei hysbysebu gan y Cyngor yn cynnwys dynodiad Cymraeg yn hanfodol neu Gymraeg yn ddymunol, ond ymhelaethir ar y brawddegau hyn er mwyn i'r sawl sy'n bwriadu ymgeisio am y swydd wybod yn union i ba raddau mae angen sgiliau Cymraeg. Mae'r brawddegau hyn yn cael eu teilwra wrth hysbysebu ac felly'n benodol i'r swydd sy'n cael ei hysbysebu.
- 4.19.2 Mae pob swydd sy'n cael ei hysbysebu yn cael ei hanfon at Reolwr y Gwasanaeth Iaith Gymraeg a Chyfieithu er mwyn dod i benderfyniad a ddylid hysbysebu'r swydd fel un lle bo sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd neu lle bo sgiliau Cymraeg yn ddymunol. Mae sawl agwedd ar y swydd yn cael ei hystyried fel dyletswyddau'r swydd ynghyd â faint o siaradwyr Cymraeg sy'n gweithio yn y tîm dan sylw.
- 4.19.3 Dyma fanylion am nifer/canran y swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn lle'r oedd y Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol; a nifer/canran y swyddi ym mhob categori lle penodwyd siaradwyr Cymraeg.

Dynodiad	Nifer a % fesul categori iaith	Nifer a % y swyddi lle penodwyd siaradwyr Cymraeg
Hanfodol	36% - 97 swydd	O'r 89 swydd a recriwtiwyd iddynt, penodwyd siaradwyr Cymraeg (lefel 4 ac uwch) i bob un (100%) ohonynt. Hyd yn hyn, ni phenodwyd unrhyw un i 8 o'r swyddi hyn gan fod y broses recriwtio yn parhau.
Dymunol	64% - 171 swydd	O'r 138 swydd y recriwtiwyd iddynt, roedd 83 swyddog yn siarad Cymraeg yn rhugl (60%). Hyd yn hyn, ni phenodwyd unrhyw un i 33 o'r swyddi hyn gan fod y broses recriwtio yn parhau.
CYFANSWM YM MHOB DYNODIAD	268 swydd	Felly, o'r 227 swydd y recriwtiwyd iddynt, penodwyd cyfanswm o 172 o siaradwyr Cymraeg rhugl, sef canran o 76%.

- 4.19.4 O gymharu â'r llynedd, gellir gweld, bod y canran o siaradwyr Cymraeg a benodwyd ychydig yn uwch na'r llynedd – 67% y llynedd a 76% eleni.

4.20 Hyfforddiant Cymraeg – Gwelir isod fanylion am nifer y staff sydd wedi cael hyfforddiant yn Gymraeg i lefel o gymhwyster penodol a nifer y staff sydd wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith yn ystod 2020-2021.

4.20.1 Cysrsiau Cymraeg yn y Gweithle

Dyddiad / Hyd y cwrs	Addas ar gyfer	Manylion	Cais	Cyfanswm wnaeth fynychu
Mynediad 1 a 2	Y rhai sy'n dymuno dysgu Cymraeg	Cwrs rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021 ar gyfer pobl sy'n dymuno dysgu Cymraeg. Roedd y dosbarthiadau yn gyfan gwbl ar-lein.	Dewis personol y staff	17
Sylfaen 1 a 2				7
Canolradd 1 a 2				24
CYFANSWM Y NIFER WNAETH FYNYCHU'R CWRS				48

4.20.2 Amrywiol Gyrsiau a Gynigwyd /Gynhaliwyd yn Gymraeg

Cwrs a gynigwyd	Sawl cwrs gafodd ei gynnig yn Gymraeg?	Cyfanswm wnaeth fynychu
Recriwtio Diogel i Reolwyr (Safon 128, (a) recriwtio a chyfweld)	1	Ni chafodd ei gynnal oherwydd nad oedd digon wedi cofrestru.
Rheoli'r Broses Gwerthuso Staff (Safon 128, (b) rheoli perfformiad)	0	Ni chynigwyd y cwrs hwn eleni oherwydd y coronafeirws
Rheoli'r Broses Ddisgyblu (Safon 128, (c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu)	0	Ni chynigwyd y cwrs hwn eleni oherwydd y coronafeirws
Iechyd a Diogelwch Corfforaethol (Safon 128, (dd) iechyd a diogelwch)	1	Ni chafodd ei gynnal oherwydd nad oedd digon wedi cofrestru

4.20.3 Sesiwn Gyflwyno Gorfforaethol / Ymwybyddiaeth Iaith

Dyddiad	Addas ar gyfer	Manylion	Cais	Cyfanswm wnaeth fynychu
Amrywiol ddyddiadau yn ystod y flwyddyn	Aelodau newydd o staff.	Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, oherwydd nad yw'r hyfforddiant wyneb i wyneb wedi'i gynnal yn ystod y coronafeirws, mae pob aelod o staff newydd wedi cael pecyn cyflwyno gyda dolenni i'r cyflwyniadau fydden nhw'n eu cael fel arfer yn y Cyflwyniad Corfforaethol. Mae'r pecyn yn cynnwys cyflwyniad gan y Gwasanaeth Iaith Gymraeg a Chyfieithu am weithredu'r Safonau'r Gymraeg, y cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael, defnyddio'r Gymraeg yn fewnol ac ymwybyddiaeth a hanes yr iaith (Staff o amrywiol wasanaethau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)	Gorfodol i bob aelod newydd o staff sy'n cychwyn gweithio gyda'r Cyngor	202
CYFANSWM Y NIFER WNAETH FYNICHU'R CWRS				202

4.20.4 Gwelir o'r ystadegau uchod bod 202 o aelodau staff wedi cael gwybodaeth ymwybyddiaeth iaith eleni.

5.0. Cadw Cofnodion

5.1 Cwynion

5.1.1 Mae modd i'r cyhoedd wneud cwyn drwy wefan y Cyngor neu drwy gysylltu'n uniongyrchol â Rheolwr y Gwasanaeth Iaith Gymraeg a Chyfieithu neu'r Swyddog Hyrwyddo a Datblygu'r Gymraeg. Bydd pob cwyn yn cael ei chofnodi ar system gwynion y Cyngor.

5.2 **Cwynion** – Cafwyd 1 gŵyn am arwydd yn ystod 2020-2021, manylion fel a ganlyn:

Dyddiad	Rhwng 1/12/2020 ac 1/3/2021
Cyfeirnod	GF60544 – Negeseuon e-bost a llythyrau cwyn gan aelod o'r cyhoedd
Natur y Gŵyn	Cwyn am arwydd Iolyn Park
Yn ymwneud â pha wasanaeth	Gwasanaeth Rheoleiddio
Crynodeb o'r gŵyn, y camau a gymerwyd, a'r modd y cafodd ei datrys	<p>1/12/2020 – cael neges e-bost am gŵyn am arwydd Iolyn Park yn uniaith Saesneg.</p> <p>2/12/2020 – Ateb y neges e-bost yn rhoi gwybod i'r achwynydd nad oes enw Cymraeg ar Iolyn Park, felly bod yr arwydd yn gywir.</p> <p>11/2/2021 – Cael Llythyr Cwyn swyddogol gan yr achwynydd yn cwyno am arwydd Iolyn Park. Roedd yr achwynydd yn teimlo nad oedd y Cyngor wedi rhoi'r ateb cywir iddo ac felly roedd yn anfon cwyn swyddogol y tro hwn.</p> <p>12/2/2021 – Ymateb i'r llythyr yn egluro eto nad oes enw Cymraeg swyddogol ar Iolyn Park. Cyfeiriom at Bolisi Enwi Strydoedd y Cyngor a rhoi gwybod i'r achwynydd sut fyddai modd gwneud cais i gael enw Cymraeg ar y bentrefan drwy'r polisi.</p> <p>16/2/2021 – Cael ail lythyr cwyn gan yr un achwynydd gyda chwestiynau ynglŷn â'r broses enwi strydoedd ac ymholiad am fap lle roedd yr enw i'w weld fel Parc Iolyn arno.</p> <p>25/2/2021 – Ymateb i'r ail lythyr cwyn gan nodi nad map y Cyngor oedd y map dan sylw ac ateb y cwestiynau am y broses enwi strydoedd.</p> <p>1/3/2021 – Cael llythyr cwyn am yr un mater, ar ran yr achwynydd, gan Janet Finch-Saunders, AS.</p> <p>1/3/2021 – Ymateb i'r pwyntiau a godwyd gan Janet Finch-Saunders gan egluro nad oes enw Cymraeg ar Iolyn Park.</p> <p>1/3/2021 – Cael y trydydd llythyr cwyn gan yr achwynydd. Nid oedd yr achwynydd yn cytuno â'r Cyngor nad oedd enw Cymraeg yn bodoli, ond y tro hwn gofynnodd i ni beidio ag ymateb i'w lythyr.</p> <p>Gan nad oes enw Cymraeg ar Iolyn Park, daethpwyd i'r casgliad felly nad oedd y gŵyn hon yn un dilys gan nad ydi'r Cyngor wedi torri unrhyw Safon wrth godi'r arwyddion uniaith Saesneg hyn.</p>

5.3 Cwynion oedd wedi'u hanfon at Gomisiynydd y Gymraeg

5.3.1 Mae modd i'r cyhoedd gwyno'n uniongyrchol efo Comisiynydd y Gymraeg hefyd, a chafodd dwy gŵyn eu hanfon atynt eleni, ond yn y ddau achos, ar ôl cael gwybodaeth bellach gennym ni, nid oedd y Comisiynydd o'r farn ein bod wedi torri unrhyw Safon felly penderfynwyd peidio ag ymchwilio ymhellach i'r mater.

Dyddiad	24/8/2020
Cyfeirnod Comisiynydd y Gymraeg	CSG759
Natur y Gŵyn	Arwyddion uniaith Saesneg ym mhentrefan Iolyn Park
Manylion Pellach	Fel a welir uchod, ni fu erioed enw Cymraeg ar Iolyn Park, ac o'r herwydd nid yw'r Cyngor wedi torri unrhyw safon wrth osod yr arwyddion hyn. O'r herwydd, penderfynodd y Comisiynydd beidio ag ymchwilio ymhellach i'r mater.

Dyddiad	24/2/2021
Cyfeirnod Comisiynydd y Gymraeg	CS015
Natur y Gŵyn	Arwyddion uniaith Saesneg ym mhentrefan Iolyn Park. Y tro hwn, roedd yr achwynydd wedi cynnwys map gyda'r enw Parc Iolyn arno hefyd.
Manylion Pellach	Fel a welir uchod, ni fu erioed enw Cymraeg ar Iolyn Park, ac o'r herwydd nid yw'r Cyngor wedi torri unrhyw safon wrth osod yr arwyddion hyn. Yn anffodus, map Sustrans oedd y map, ac roedd yr enw Parc Iolyn wedi'i roi arno'n anghywir. O'r herwydd, penderfynodd y Comisiynydd beidio ag ymchwilio ymhellach i'r mater.

6.0 Casgliad

- 6.1 Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn un wahanol a dweud y lleiaf, ond rydym yn falch iawn nad yw hyn wedi amharu o gwbl ar ein gwasanaeth i'r cyhoedd.
- 6.2 Mae hi'n gyfnod cyffrous iawn i ni gyda'r gwaith hyrwyddo'r Gymraeg yn ehangach fydd yn digwydd yn sgil penodi'r Swyddog Hyrwyddo a Datblygu'r Gymraeg, ac edrychwn ymlaen at weld y swydd yn datblygu'r flwyddyn nesaf.
- 6.3 Mae'n braf gweld cymaint o ddatblygiadau a llwyddiannau yn ystod y flwyddyn fel ffurfio Grŵp Llywio'r Gymraeg, datblygu cysylltiadau ag ysgolion cynradd y sir, y gwersi Cymraeg yn ffynnu a datblygiad y Cynllun Siarad yn y Gwaith.
- 6.4 Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn canolbwyntio i ddechrau ar ddatblygu a mireinio ein Polisiâu Iaith Gymraeg ymhellach, yn datblygu ar sylfaeni Strategaeth Hybu'r Gymraeg ac yn parhau i ddatblygu ein cyswllt gyda'r ysgolion.
- 6.5 Edrychwn ymlaen i weld ein dysgwyr yn datblygu ac hefyd i weld y cynnydd gyda'r cwrs cyfunol newydd.